

# DOLEN Y TAB – 60

18–19 Mehefin 2021

## \*Oedfa Rithiol Sul 20 Mehefin\*

Yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys.

## Oedfaon yr Wythnosau Nesaf

### Mehefin

27 Lyn West a'r teulu.

### Gorffennaf

4 Y Parchg. Aled Edwards.

11 Oedfa'r Cyfundeb. Ymuno'n rhithiol gyda'r oedfa o'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.

## Hefyd ddydd Sul 20 Mehefin

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Dafydd Iwan, Caeathro.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### 19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Cydymdeimad

Estynnwn ein cydymdeimlad fel eglwys gyda Mari a Wyn Jones, Dôl y Felin, Creigiau a'r plant, ar golli tad, tad-yng-nghyfraith a thad-cu annwyl iawn, ddiwedd mis Mai. Roedd Dennis Thomas, tad Mari, yn Athro Emeritws yn yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Mae Lol Delbridge wedi cysylltu i egluro bod y Banc Bwyd yn casglu bwyd yn Tesco Tonysguboriau ddydd lau, Gwener a Sadwrn 15, 16, 17 Gorffennaf. Mae hi'n awyddus i ni wybod ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un o'r Tabernacl ymuno, am fod llawer obonom wedi gwneud hyn yn y gorffennol.



Mae ein casgliad ariannol at y Banc Bwyd yn dal yn weithredol, a dydy Lol ddim am roi pwysau ar neb. Fyddwn ni ddim yn trefnu rota, ond os oes unrhyw un eisiau ymuno, gadewch i mi wybod, gan nodi diwrnod ac amser, ac fe gysyllta i â Lol.

[ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com)

## Dim Newid

Gobaith aelodau'r Bwrdd yn eu cyfarfod ar ddechrau mis Mai oedd y byddai gennym newyddion da i'w rannu am ailagor y capel wedi i ni gwrdd ym Mehefin. Ond, ysywaeth, cawsom ein siomi unwaith yn rhagor yn ein cyfarfod rhithiol yn gynharach yn yr wythnos, yn dilyn datganiad diweddaraf Llywodraeth Cymru. Er bod Cymru wedi symud yn rhannol i Lefel 1 ar 7 Mehefin, nid yw'r amodau sy'n rhaid eu dilyn o ran cynnal oedfa mewn addoldai wedi eu llacio, ac eithrio bod aelodau o dri theulu estynedig yn gallu eistedd ar bwys ei gilydd. Er bod datganiad y Llywodraeth hefyd yn awgrymu y gallai fod llacio pellach ar 21 Mehefin, fe'n rhybuddir fod hyn yn amodol ar y sefyllfa gyda'r amrywiolyn Delta bryd hynny. Ond er y siom enfawr o dderbyn y newyddion hwn, roedd pawb yn gytûn pa mor ffodus ydym o'i gymharu â llawer o achosion eraill gan ein bod wedi derbyn bendith fawr o'r oedfaon rhithiol sydd wedi eu paratoi'n ddi-dor dros y pymtheg mis diwethaf.



## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cyfarfodydd Blynyddol Rhithiol 2021  
29 Mehefin – 1 Gorffennaf

Pleser yw estyn croeso i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb dros Zoom.

Mae dwy ddolen gysylltu i ymuno â'r cyfarfodydd:

- Y cynadleddau
- Y cyfarfodydd cyhoeddus.

I gofrestru cysylltwch â [undeb@annibynwyr.cymru](mailto:undeb@annibynwyr.cymru) gan nodi eich dewis o ddolenni. Ceir manylion y cyfarfodydd yn Y Tyst, 10 Mehefin 2021 tudalen 8 ([annibynwyr.org/tyst/](http://annibynwyr.org/tyst/)).



# Diwedd y Byd?


Apocalyptic Cristnogol ac ymatebion i newid hinsawdd

Dyma oedd teitl Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams a draddodwyd gan Gethin arall, sef Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, yn ddiweddar. Am resymau technegol, cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg gan y siaradwr ei hun a glywsom ar y noson, ond bellach mae Cytûn wedi sicrhau bod fersiwn Gymraeg o'r ddarlith ar gael yn ddigidol i unrhyw un sydd am ei darllen: [https://www.cytun.co.uk/hafan/?page\\_id=5091](https://www.cytun.co.uk/hafan/?page_id=5091)

## Argyfwng Mwyaf'r Oes

Ni ddylai fod yn syndod o gwbl i ni yn y Tabernacl glywed mai dyma'r thema ddewisodd Gethin ar gyfer ei ddarlith. Wedi'r cyfan, rydym eisoes yn gyfarwydd â'i allu i ofalu bod neges ei fyfyrddau bron yn ddieithriad yn berthnasol i heriau'r byd cyfoes. Hefyd, erbyn hyn mae consensws ymhlith y mwyafrif helaeth o wyddonwyr a gwleidyddion ar draws y byd mai newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu'r blaned, a bod angen i wladwriaethau weithredu ar fyrder i atal y bygythiad hwn rhag dinistrio'r greadigaeth. Yn ddiweddarach eleni fe fydd gwleidyddion a gwyddonwyr yn ymgynnull unwaith yn rhagor, y tro hwn yn Glasgow, ar gyfer Uwch Gynhadledd COP26 i geisio dod i gytundeb rhyngwladol i wrthsefyll yr argyfwng. Does ond gobeithio y byddant yn fwy llwyddiannus y tro hwn nag y buont yn y cynadleddau blaenorol.


Yn gynharach yr wythnos hon fe gyhoeddwyd casgliadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, corff statudol annibynnol a sefydlwyd i gynghori llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, a'r llywodraethau datganoledig, ar eu targedau allyriadau a'r cynlluniau i addasu i atal effeithiau newid hinsawdd. Mae'r adroddiad yn feirniadol iawn o fethiant pob un o'r llywodraethau i fynd i'r afael o ddifri â'r problemau hyd yn hyn.



**Y Gair a'r Genedl:  
canmlwyddiant geni  
R. Tudur Jones**

Darlith gan yr Athro D. Densil Morgan

NOS LUN,  
28 MEHEFIN  
7:00 P.M.

 F-BOSTIWCH  
UNDEB ANNIBYNNWYR CYMRU  
I DDERBYN LINC

Heb weithredu, mae'r rhagolygon i ni yng Nghymru yn arswydus, e.e. cynnydd o 13% mewn glawogydd ym misoedd y gaeaf a lleihad o 26% yn ystod yr haf, lefel y môr yn codi o 76cm, a'r siawns o hafau poeth megis un 2018 yn digwydd yn amlach. O ganlyniad, disgwylir mwy o lifogydd a thirlithriadau, rhagor o danau gwyllt, bygythiad i gymunedau ger y môr, a nifer o effeithiau negyddol eraill.

## Persbectif Diwinyddol

Yn hytrach nag ailadrodd yr hyn sydd eisoes yn hysbys i ni, mae Gethin yn awyddus i gysylltu diwinyddiaeth â chwestiwn seciwlar mwyaf ein hoes ni – sef yr argyfwng hinsawdd. Man cychwyn ei ymdriniaeth oedd sylwi bod yr argyfwng wedi gwneud i lawer mwy o bobl ofni dinistr a theimlo bod y diwedd y byd ar fin digwydd, gan ddisgrifio'r protestio yn ei gylch fel *'Gwrthryfel Difodiant'*. Hefyd, mewn disgwrs gwyddonol lle mynnir fod angen *'gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau CO2'* i osgoi dinistrio'r byd. Ond drwy ychwanegu dyddiad penodol i'r dinistr, *'mae llawer bellach yn ei alw'n apocalyps.'*



Wedi nodi'r ddau ddiffiniad sydd i'r gair 'apocalyptic' – sef 'datguddiad' a 'diwedd y byd' – dangosir trwy gyfres o ddyfyniadau mai'r ail ystyr sydd gan y byd seciwlar mewn golwg wrth ei ddefnyddio, a dyma hefyd yw diffiniad Gethin. Yna, wedi iddo ddangos y tebygrwydd trawiadol rhwng y disgrifiadau erchyll a welir yn Llyfr y Datguddiad ar y naill law a chanlyniadau newid hinsawdd ar y llall, mae'n cynnig dadansoddiad treiddgar o'r themâu sy'n gyffredin a'r rhai sy'n wrthygyferbyniol rhwng yr apocalyptic seciwlar a'r apocalyptic Cristnogol. Yn ddiddorol iawn mae cyferbyniad hefyd rhwng gwahanol garfanau o Gristnogion, a hynny'n rhannol ar sail eu hamgylchiadau materol.

*'Apocalyps a phryder, galar a dewrder'* yw trywydd yr adran sy'n cloi'r ddarlith. Yma fe ddarlunnir y tensiwn rhwng ymatebion gwrthygyferbyniol i argyfyngau. Ar y naill law, gallwn fel unigolion a chymdeithas anobeithio na ellir adfer y sefyllfa, neu ar y llaw arall gellir dewis ymgyrchu a gweithredu yn y gobaith y bydd modd achub y byd.

Cylchlythyr wythnosol yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.  
Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.